

Rhif: WG24399



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2015–2016

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2015



ISBN digidol 978 1 4734 3000 6
© Hawlfraint y Goron 2015
WG24399

Crynodeb o'r Prif Sylwadau

DS Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau a dehongliadau'r ymatebwyr fel y nodwyd yn eu hymatebion.

Cyngor Sir Penfro: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -4.2%

Trosglwyddiadau i mewn i'r Setliad – mae'r Cyngor yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle i drosglwyddo cymaint o grantiau penodol â phosib i Setliad 2015-16 er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth ddelio â gostyngiadau grant cyffredinol.

Brigdorri – dylai cyllid i brosiectau neu fentrau penodol gael ei adolygu a rhyddhau'r adnoddau cysylltiedig i'r prif setliad.

Sylw cyffredinol - bydd gostyngiadau parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y setliad yn arwain yn anochel at ostyngiad mewn lefelau gwasanaeth ac, yn y sefyllfaoedd gwaethaf, dod â gwasanaethau i ben.

Cyngor Sir Ceredigion: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -4.5%

Cyllid Allanol Cyfun (CAC) - mae Ceredigion yn teimlo bod y gostyngiad yn y CAC ar gyfer 2015-16 yn eithaf gwahanol i'r rhagolygon dangosol ar gyfer setliad 2014-15, sef -2.93%. Mae'r gostyngiad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynrychioli mwy na 9% mewn gostyngiad ariannol, sy'n cyfateb i ostyngiad gwirioneddol o ryw 14%. Er bod Ceredigion yn teimlo bod llai o wasanaethau'n anochel, bydd sicrhau cyn lleied o effaith â phosib ar Wasanaethau'r Cyngor yn her sylweddol. Nid yw absenoldeb ffigurau setliad dangosol ar gyfer 2016-17 yn helpu gyda chynllunio ariannol yn y tymor canolig.

Cyllid Gwaelodol – croesewir penderfyniad y Gweinidog i gynnwys gwaelod ar gyfer 2015-16 ac mae'n meddalau effaith y gostyngiad i Geredigion.

Trosglwyddiadau – wedi cydnabod trosglwyddo grantiau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai mwy fyth o grantiau wedi cael eu trosglwyddo, gan ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i Awdurdodau. Roeddent yn teimlo bod gormod o grantiau y tu allan i'r Grant Cynnal Refeniw o hyd.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - nododd Ceredigion fod y dyraniad cyllido ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau'r un fath heb ystyried cynnydd yn lefelau'r Dreth Gyngor. Roeddent yn cydnabod mai penderfyniad pob Cyngor unigol yw'r cynnydd a weithredir, fodd bynnag, yn seiliedig ar y gostyngiad gwirioneddol yn y Grant Cynnal Refeniw, bydd cynnydd yn anochel. Fel y nodir yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1), mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i Dreth Gyngor gynyddu. Mae'r Adroddiad yn dangos dros dro gynydd o 4.23% ac felly gostyngiad cyfatebol yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyrennir. Teimla'r Cyngor y byddai'n rhesymol ac yn gyfiawn disgwyl cynnydd canran yn y swm a ddyrennir i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, i gyfateb i'r cynnydd canran sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, fel y dynodir yn 'elfen dreth safonol' yr Adroddiad.

Gwarchod Ysgolion - nodwyd ganddynt fod yr angen am i Awdurdodau gynyddu cyllid i ysgolion yn parhau ar gyfer 2015-16, a bod hynny'n rhoi pwysau eithriadol ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau eraill, a bod y Cyngor yn teimlo bod angen adolygu parhad y warchodaeth i ysgolion ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Y Gronfa Gofal Canolraddol - siomedig mai dim ond am flwyddyn mae'r cyllid yn weithredol. Roedd Ceredigion wedi gobeithio y byddai wedi para am ddwy arall o leiaf, fel bod y buddsoddiad cychwynnol yn helpu i leihau costau refeniw yn y tymor hwy. Mae'n rhaid cynnal y buddsoddiad am

y tymor canolig o leiaf. Mae tynnu'r grant hwn yn ei ôl yn dod ar adeg pan mae pwysau eithriadol ar gyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol a galw cynyddol am ofal cymdeithasol.

Grantiau Penodol Eraill - nodwyd uno 11 o grantiau addysg gyda'r grant 'Gwella Addysg', fodd bynnag mae swm gwirioneddol y grant oddeutu 15% yn llai na chyfanswm y grantiau sydd wedi'u huno ar y cyd. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol a bydd yn cael effaith niweidiol ar ysgolion ac ar y gwasanaethau addysg. Nodwyd bod gostyngiadau sylweddol wedi bod mewn grantiau penodol eraill, ee. Cefnogi Pobl, a bod rhai wedi diflannu ar gyfer 2015-16. Fodd bynnag, nodiwyd ganddynt fod grantiau eraill, ee. Amddifadedd Disgyblion, wedi cynyddu'n sylweddol.

Setliad Cyfalaf - nodwyd bod y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol wedi aros ar yr un lefel â 2014-15. Fodd bynnag, bydd colled ar ôl Menter Fenthyca Llywodraeth Leol ar gyfer gwelliannau i briffyrdd. Byddai parhau â'r fenter hon wedi galluogi buddsoddiad ychwanegol a gwneud rhagor o waith gwella y mae ei wir angen.

Treth Gyngor - roedd sylw'r Gweinidog ar heriau cyllido a baich ar deuluoedd wedi cael ei nodi, fodd bynnag, mae Awdurdodau'n wynebu gostyngiadau gwirioneddol sylweddol yn eu Cyllid Allanol Cyfun wrth geisio gwarchod ysgolion. Felly bydd cynyddu Treth Gyngor 2015-16 yn anochel er mwyn lleihau'r gostyngiadau mewn gwasanaethau.

Sylwadau eraill - mae Ceredigion yn teimlo bod y fethodoleg Asesu Gwariant Safonol ar gyfer dosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw yn peri anfantais i Awdurdodau gwledig. Nid yw cost uwch darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a thenau eu poblogaeth yng Nghymru'n cael sylw ac mae angen brys am adolygu'r dull o ddosbarthu. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn gyfnod economaidd anodd i bawb a bod llai o gyllid yn anochel. Fodd bynnag, byddai'n llai o faich i rai pe bai gostyngiad o'r fath yn cael ei rhannu'n deg ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.7 %

Sylwadau cyffredinol - mae Rhondda Cynon Taf yn ymwybodol bod pob rhan o'r sector cyhoeddus, yn genedlaethol, yn teimlo effeithiau parhaus mesurau cyni'r DU. Maent yn bryderus fodd bynnag y bydd amharu ar wasanaethau iechyd a lles oni bai fod cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael gwell darpariaeth. Mae absenoldeb lefelau setliad dangosol y tu hwnt i 2015-16 yn heriol i'r Cyngor o ran cynllunio ymlaen.

Cyllid gwaelodol - mae'r Cyngor yn teimlo bod y penderfyniad i ddarparu addasiad gwaelodol yn ddull teg o weithredu ac, oherwydd ansicrwydd ac anwadalarwydd cyllidol, dylid sicrhau cyn lleied â phosib o newidiadau i fformiwlâu.

Grant Neilltuo - mae gan y Cyngor gais parhaus bod manylion grantiau penodol sydd eto i ddod yn cael eu darparu cyn gynted â phosib. Mae hefyd yn gofyn am gadarnhad ar frys o ddyraniad eu Grant Cytundeb Canlyniadauau.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.7%

Sylw cyffredinol - mae Torfaen yn parhau i geisio deall a hefyd cydnabod yr amgylchedd cyllido newydd y mae'r sector cyhoeddus a llywodraeth leol yn gweithredu ynddo. Mae'n ailadrodd ei bod yn bwysicach nag erioed i Lywodraeth Cymru a phob rhan o'r sector cyhoeddus gydweithio a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y peirianwaith swyddogol ac, i ryw raddau, y peirianwaith ansyddogol, yn gwthio Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ymhellach oddi wrth ei gilydd.

Cyllid Allanol Cyfun - mae'r Cyngor yn siomedig gyda'r gostyngiad ariannol cyffredinol ar gyfer 2015-16 ac yn rhwystredig ei fod yn llawer gwaeth na'r ffigur dangosol a ddarparwyd yn flaenorol. Mae'n nodi bod hyn yn digwydd am yr ail flwyddyn yn olynol ac yn teimlo y bydd yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau a chynllunio'n ariannol. Hefyd, nid oes unrhyw ffigurau dangosol wedi'u

darparu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n deall yr ansicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei brofi ac yn teimlo bod trafod rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn bwysicach nag erioed. Mae Torfaen yn cydnabod yn llawn ymdrechion y Llywodraeth yn y gorffennol i warchod llywodraeth leol, ond mae'r warchodaeth a gafwyd wedi bod yn gymharol ac mae awdurdodau wedi gorfod gwneud dewisiadau ac arbedion anodd. Mae Torfaen yn ei chael yn anodd derbyn gwarchod iechyd ar gost i lywodraeth leol ac yn teimlo bod y gyllideb a'r setliad yn methu cydnabod cyfraniad gofal cymdeithasol at roi sylw i anghenion iechyd cymunedau.

Gwarchod Ysgolion - er eu bod yn cydnabod yr adnoddau ychwanegol ar gyfer ysgolion ac y byddant yn anrhydeddu'r warchodaeth ofynnol, mae unrhyw fath o warchodaeth yn achosi heriau a dewisiadau i feysydd gwasanaeth eraill.

Cyllid Gwaelodol – er gwaetha'r ffaith bod amrywiaeth nodedig o hyd o ran dosbarthiad ledled Cymru, mae Torfaen yn cefnogi'r mecanwaith gwaelodol.

Grantiau Penodol - mae Torfaen yn cydnabod ac yn croesawu bod mwy o wybodaeth am grantiau wedi'i darparu eleni ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn parhau. Hefyd, byddai'n hoffi i ddyraniadau grant unigol awdurdodau lleol gael eu cynnwys ac mae'n credu ei bod yn hanfodol bod gwybodaeth lawn am grantiau'n cael ei derbyn cyn gynted â phosib, gan fod cymaint ohonynt yn sail i wasanaethau craidd a chyflogaeth. Nododd nad oedd y grant Cytundeb Canlyniadau wedi cael ei gynnwys a'i fod yn gobeithio mai dim ond problem gydag amseru oedd hyn, oherwydd byddai unrhyw newidiadau'n cael effaith sylweddol ar lefelau cyllido cyffredinol ac ar wasanaethau.

Treth Gyngor – mae Torfaen yn falch bod y cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor yn parhau'n ddewis i bolisi lleol ond mae'n disgwyl i lefelau'r Dreth Gyngor godi.

Trosglwyddiadau - mae'r Cyngor yn teimlo bod llawer o fiwrocratiaeth gyda chyflwyno cynlluniau ac mewn cyfnod o lai o gyllid, mae angen eglurder, cysondeb a thryloywder er mwyn lleihau'r baich. Mae'n gobeithio y bydd trosglwyddo grantiau i'r setliad yn parhau gyda mwy fyth o uchelgais a chyflymder, fel nad oes raid i awdurdodau wynebu rheoleiddio a biwrocratiaeth.

Cyngor Sir Fynwy: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -4.3%

Sylw cyffredinol - mae'r setliad dros dro'n peri pryder yn dilyn setliad anodd y llynedd, gyda darogan amseroedd anodd i ddod o hyd, yn enwedig i Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o gyllid teuluoedd ac yn gwneud ei orau glas i gyflwyno cyllidebau cytbwys, ond bydd pwysau anochel ar godi'r Dreth Gyngor.

Cyllid gwaelodol – er eu bod wedi'u gwarchod gan y cyllid gwaelodol, nid yw'r setliad hwn wedi gwneud unrhyw beth i leddfu sefyllfa Sir Fynwy fel y Cyngor sy'n derbyn y cyllid gwaethaf yng Nghymru y pen ar gyfer y boblogaeth. Wrth edrych ymlaen, bydd parhau i dderbyn un o'r setliadau gwaethaf yng Nghymru'n cael effaith ddifrifol ar wasanaethau allweddol.

Gwarchodaeth i ysgolion - mae'r Cyngor yn nodi'r angen am warchod cyllidebau addysg a lleihau grantiau addysg, fodd bynnag, mae'n rhaid pwysu a mesur y gofynion gwarchod yn erbyn y pwysau cynyddol ar wasanaethau lleol eraill, ochr yn ochr â galw cynyddol am warchod asedau presennol a lefelau chwyddiant sy'n codi.

Grantiau Penodol – mae Sir Fynwy'n cefnogi ac yn annog trosglwyddo grantiau i'r setliad ond mae'n siomedig nad oes rhagor o gynnydd wedi'i wneud ac yn nodi unwaith eto nad oes gwybodaeth gyda'r setliad am lawer o grantiau penodol. Nid yw hyn o help ar gyfer cynllunio'n ariannol a chynllunio gwasanaethau.

Setliad Cyfalaf - mae pryder difrifol o hyd, yn enwedig ar adeg pan mae Cynghorau'n cael anhawster i godi derbyniadau cyfalaf drwy werthu asedau. Nid oes unrhyw setliadau cyfalaf dangosol wedi'u cyhoeddi, ac nid yw hynny'n help ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chynllunio'n ariannol. Mae buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth, ee. Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a Rheoli

Gwastraff, yn parhau'n uchel felly mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn ffactor llwyddiant allweddol.

Sylw cyffredinol - er eu bod yn deall y rhesymau dros y setliad isel, mae Sir Fynwy'n teimlo ei bod yn anodd cysoni hyn â'r disgwyliadau cynyddol a'r galw cynyddol am wasanaethau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru ddeall y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud a chefnogi awdurdodau, heb hybu disgwyliadau polisi na ellir eu cyflawni. Dywed Sir Fynwy ei bod yn amser i bawb gydweithio er mwyn sicrhau cyn lleied ag y bo modd o ddirywiad mewn cyllid cyhoeddus a'i effaith ar y mwyafr agored i niwed mewn cymdeithas, gan sicrhau'r cyhoedd bod Cyngorau a Llywodraeth Cymru yn bodoli i wasanaethu.

Cyngor Sir Wrecsam: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -2.9%

Cyllid Allanol Cyfun - mae Wrecsam yn cydnabod yr anhawster y mae Llywodraeth Cymru'n ei gael gyda rheoli effaith toriadau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw'r cydbwysedd synhwyrol rhwng cyllidebau Llywodraeth Leol ac lechyd wedi cael ei gynnal. Mae'n teimlo bod y setliad hwn yn cael effaith annheg ar wasanaethau lleol y Cyngor.

Gwarchod Ysgolion - dylid adolygu parhad yr ymrwymiad hwn o ystyried y sgil effaith fawr mae'n ei chael ar wasanaethau eraill.

Grantiau Penodol - mae rhagor o wybodaeth am grantiau'n hanfodol i alluogi cynllunio integredig ar wasanaethau. Mae uno grantiau addysg yn fuddiol er mwyn rheoli a gweinyddu, fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r telerau a'r amodau cysylltiedig â'r grantiau'n rhy ragnodol heb fod angen. Mae pryder am adnoddau cyffredinol yn crebachu, gyda grantiau'n cael eu lleihau yn hytrach na'u trosglwyddo i'r setliad.

Gwasanaethau Cymdeithasol – rhaid i'r £10m ychwanegol a gynhwysir yn y setliad barhau a dylai gynyddu er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar y gyllideb iechyd. Nid yw lefel bresennol y setliad yn cydnabod y gofynion cynyddol a'r cynnydd mewn cymhlethdod mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant.

Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig - mae Wrecsam yn cefnogi trosglwyddo i'r setliad a symud at fformiwla bresennol o 2017-18 ymlaen. Mae'n pryderu nad yw dosbarthiad y cyllid ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf, ar sail ranbarthol, yn gweithio i Ogledd Cymru, ble mae prosiectau rhanbarthol ar sail pâr yn hytrach na chwe Awdurdod. Y canlyniad yw bod y cyllid ar gyfer y peilot llwyddiannus yn cael ei ostwng yn sylweddol ac mae'n awgrymu bod cyllid 2015-16 yn cael ei gynnal ar lefel prosiect is ranbarthol.

Cronfa Cydweithredu Rhanbarthol - mae Wrecsam yn teimlo mai penderfyniad eithriadol annoeth yw rhoi terfyn ar nifer o brosiectau Gwasanaethau Cymdeithasol sydd dal yn newydd iawn ar y sail bod £10m ychwanegol wedi'i gynnwys yn y setliad.

Cronfa Gofal Canolraddol - mae Wrecsam yn nodi y daw cyllid y Gronfa hon i ben a bod y £10m yn cael ei gynnwys yn y setliad cyffredinol. Nid yw darparu'r cyllid am flwyddyn ac wedyn ei dorri'n galluogi i Awdurdodau lechyd a Lleol weithredu cynlluniau cynaliadwy sy'n lleddfu'r pwysau ar welyau mewn ysbytai a hefyd y cynnydd parhaus gydag oedi wrth ryddhau.

Treth Gyngor - mae Wrecsam yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau digonol i alluogi cadw'r Dreth Gyngor yn rhesymol isel, a dywed y dylid darparu adnoddau digonol i Gyngorau fel bod eu dull o weithredu'n debycach i'r un yn Lloegr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Awdurdodau ar y ffin â Lloegr, gan nad yw'r cyhoedd yn gallu deall pam nad yw mentrau i gadw'r dreth gyngor yn isel yn Lloegr yn cael eu trosglwyddo i Awdurdodau yng Nghymru.

Cyfrifoldebau newydd - mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyllido'n llawn yn y setliad. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth gadarn ar sail unrhyw gyllid newydd sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth.

Setliad Cyfalaf – o ystyried y prosiectau seilwaith sydd yn yr arfaeth, mae'r gostyngiad mewn adnoddau cyfalaf, a'u lefel isel yn gyffredinol, yn bryder mawr i Wrecsam.

Gweinyddu Cyllid Myfyrwyr – mae'r swm sydd wedi'i dynnu o'r setliad yn fwy na'r costau cyfredol mewn Llywodraeth Leol ac felly'n rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau'r Adran Dysgu Gydol Oes. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - mae'r gefnogaeth ariannol barhaus i'r cynllun hwn yn gadarnhaol ond mae'n teimlo y dylid cynyddu adnoddau 2015-16 yn hytrach na pharhau ar yr un lefel â 2014-15.

Cynllunio ymlaen – mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried darparu'r setliad yn gynharach a darparu rhagolygon clir i helpu gyda chynllunio'n ariannol yn y tymor canolig.

Cyngor Bro Morgannwg: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.4%

Cyllid Allanol Cyfun - mae'r gostyngiad sydd wedi'i ddyfynnu yn y Cyllid Allanol Cyfun, sef 3.4%, yn trosi i ostyngiad o 3.5% mewn gwir dermau ariannol wrth ystyried effaith lawn Menter Fenthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r anawsterau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru o ran rheoli ei sefyllfa ariannol gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod cyllid yn cael ei ddargyfeirio fel blaenoriaeth i lechyd. Oherwydd hyn, mae ei gyllid yn 2015-16 wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r rhagolygon dangosol, sef llai 1.64%. Mae hyn yn ei roi mewn sefyllfa anodd ac mae cyflwyno deddfwriaeth newydd (ee. y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r Ddeddf Tai) yn debygol o gynyddu'r baich ariannol hefyd.

Grantiau - mae Bro Morgannwg yn teimlo y byddai'n fwy o help pe bai gwybodaeth lawn am yr holl grantiau'n cael ei darparu ar lefel leol. Maent yn parhau i danlinellu pwysigrwydd mwy o hyblygrwydd cyllido drwy drosglwyddo grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw heb eu neilltuo. Bydd y Cyngor yn adolygu'r holl wasanaethau mae'n eu darparu'n fuan a bydd yn gwneud penderfyniadau anodd. Bydd rhyddid i ddyrannu adnoddau sy'n prinhau drwy lacio'r gyfundrefn grantiau'n hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.4%

Cyllid Allanol Cyfun - mae Caerffili'n siomedig y bydd yn wynebu gostyngiad o 3.4% ar gyfer 2015-16 pan mai'r ffigur dangosol a ddarparwyd yn flaenorol oedd 1.34%. Mae'r awdurdod yn gwerthfawrogi ei fod wedi cael gwybod ym mis Mehefin am y cynllun i gynyddu toriadau i 4.5%, fodd bynnag, mae'r amser cymharol fyr i gynllunio ar gyfer arbedion ar y raddfa hon yn anfoddhaol. Mae'n her sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ar gyfer cynllunio yn y tymor canolig a hir. Nid yw hepgor ffigurau setliad dangosol y dyfodol wedi helpu gyda hyn.

Bydd y rhagolygon gwael yn effeithio ar wasanaethau heb eu gwarchod ac yn ychwanegol at y gostyngiad ariannol, bydd angen arbedion pellach i gyllido chwyddiant cyflogau a chwyddiant arall a phwysau galw. Mae'n pwysleisio bod 43% o'r 'gyllideb net y gellir ei rheoli' ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn wynebu cynnydd arwyddocaol o ran galw oherwydd newid demograffig.

Grantiau Penodol - mae lleihau rhai grantiau'n arwain at heriau ariannol ychwanegol ac mae torri'r gyllideb Cefnogi Pobl, a hefyd y lleihau ar grantiau Addysg, yn peri pryder.

Grant Cytundeb Canlyniadau - mae'n bryder nad yw ffigurau Awdurdodau unigol wedi cael eu darparu fel yn ystod y blynyddoedd a fu. Mae hyn yn creu ansicrwydd ac nid yw'n helpu pan mae'n rhaid datblygu ystod o gynigion ar gyfer arbedion mewn amser byr.

Sylw cyffredinol – mae Caerffili wedi diweddarau ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn ddiweddar, ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n rhaid arbed amcangyfrif o £39m. Er y gwneir pob ymdrech i

warchod gwasanaethau rheng flaen, mae'n anochel y bydd arbedion mor enfawr yn cael effaith ar ansawdd ac ystod y gwasanaethau y bydd y Cyngor yn gallu eu darparu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -2.8%

Y sefyllfa gyffredinol - mae'r Cyngor yn nodi nad yw wedi bod yn bosib darogan y tu hwnt i 2015-16 ond mae'n credu bod lle i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol gydweithio i lunio tybiaethau cynllunio y tu hwnt i'r blynyddoedd hynny, yn enwedig o ran cyfeiriad cyffredinol ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, sef y meysydd gwariant mwyaf.

Gwarchod Addysg – byddai'n ddefnyddiol trafod y canlyniadau sydd wedi codi o'r 1% ar gyfer gwarchod ysgolion a'r effaith bosib pe bai'n parhau y tu hwnt i 2015-16.

Gwasanaethau Cymdeithasol – mae'r gydnabyddiaeth wedi'i nodi. Hefyd mae Blaenau Gwent yn credu y gellid cynnwys dadansoddiad o effaith tueddiadau demograffig ar y gwasanaethau hyn yn y drafodaeth a grybwyllir uchod.

Grantiau Penodol / trosglwyddiadau - mae'r Cyngor yn croesawu trosglwyddo £13.5m i'r Grant Cynnal Refeniw a byddai ganddo ddi-ddordeb mewn gweld rhestr lawn o'r £160m sydd wedi'i drosglwyddo yn ystod y tymor Cynulliad hwn, sy'n dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddadheilthuo. Mae cadarnhad o fanylion grant pellach yn hanfodol ar gyfer cynllunio eu gwasanaethau'n gynnar.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - mae'r Cyngor yn nodi bod lefel gyffredinol y gefnogaeth wedi parhau'r un fath ar gyfer 2015 -16 ac y dylai economi sy'n adfer, dros amser, ganiatáu ar gyfer llai o gefnogaeth i hawlwy'r.

Ymgysylltu cymunedol – mae dull Blaenau Gwent o ymgysylltu â'r gymuned wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol ar gyfer proses pennu cyllideb 2015-16. Mae wedi datblygu proses o dri cham sy'n rhoi sylw i rannu gwybodaeth am wariant presennol ac yn y dyfodol, ceisio barn am gynigion i arbed arian, a rhoi gwybodaeth gyson i'r gymuned am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Cronfa Buddsoddi i Arbed – croesewir y penderfyniad i barhau i gefnogi buddsoddiadau mewn prosiectau sy'n trawsnewid.

Cyngor Sir y Fflint: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.4%

Cyffredinol - mae Sir y Fflint yn cydnabod y pwysau cyllido brys ar draws y gwasanaethau cyhoeddus y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu pwysu a'u mesur ac mae'n derbyn y byddai'n afrealistig disgwyl newidiadau sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol. Er bod sefyllfa gyllidebol 2015-16 yn eithriadol heriol i bawb, mae'n rhaid troi'r sylw yn awr at gyllid ar gyfer 2016-17, o ystyried yr ansicrwydd am adnoddau yn y dyfodol a'r cyfyngiadau ar gynllunio ymlaen.

Grantiau Penodol - mae effaith eilaidd gostyngiadau grant penodol ar gyfer gwasanaethau craidd yn ychwanegu at effaith gostyngiadau mawr yn y Grant Cynnal Refeniw. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o'r adolygiadau cynllunio busnes sylfaenol a fydd yn newid ac, mewn rhai achosion, yn lleihau ac yn peri risg i wasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'n rhaid i'r gwaith o adolygu a diwygio grantiau fod yn fwy uchelgeisiol ac yn gyflymach.

Tymor canolig a hir - nid yw lefelau'r gostyngiadau yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2014-15 a'r cynigion ar gyfer 2015-16 yn gynaliadwy yn y tymor canolig i hir. Dylai llywodraeth leol fod â lefel ddigonol o sicrwydd i allu cynllunio ymlaen gyda rhywfaint o hyder o leiaf yn y tymor canolig. Mae'n dweud bod Cynghorau'n debygol o fod angen mynediad at adnoddau cenedlaethol er mwyn cyllido newid a gostyngiadau parhaus yn y gweithlu. I rai Cynghorau, efallai na fydd cronfeydd wrth gefn sy'n prinhaus'n ddigonol i dalu'r costau hyn. Rhaid wrth drafodaeth frys ar gyllid ac anghenion cyfalafu.

Deddfwriaeth ac NDR - dylid cynnwys fforddiadwyedd blaenoriaethau polisi a gwasanaethau Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu rhag diffyg cyfateb rhwng uchelgais ac adnoddau. Dylid edrych ar fwy o hyblygrwydd a rhyddid lleol mewn adnoddau cyllido ac o ganlyniad i gynyddu datganoli. Dylai caniatáu i awdurdodau lleol gadw cyfran o NDR, fel rhan o adolygu a diwygio trethiant, fod yn flaenoriaeth.

Cyngor Dinas Caerdydd: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -2.9%

Cyffredinol - mynegwyd siom gan Gaerdydd am ei Setliadau Refeniw a Chyfalaf Dros Dro. Y Cyngor yw'r mwyaf yng Nghymru a'r un sy'n tyfu gyflymaf. Mae hyn, ynghyd â'r cyfraddau twf disgwylidig ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, yn gwneud i Gaerdydd deimlo nad yw ei sefyllfa unigryw yn cael ei chydabod yn y setliad. Mae Caerdydd yn teimlo nad yw'n gallu sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol mewn trafndiaeth a seilwaith, ac nad yw cyllid y Setliad yn cydnabod yn effeithiol asedau treftadaeth Caerdydd a'r rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a'r pwysau ariannol cysylltiedig.

Cyllid Allanol Cyfun a lleddf - mae Cyllid Allanol Cyfun Caerdydd y pen yn safle 21 allan o'r 22 o gynghorau, ac 11.6% yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn nodi bod ganddo ostyngiad setliad is na'r cyfartaledd o ganlyniad i newidiadau data. Fodd bynnag, mae wedi cyfrannu £316,000 tuag at y mecanwaith lleddf, sydd o fudd i Gynghorau sydd â mwy o gyfle i ailiapiu'u gwasanaethau. Mae hynny'n golygu bod Cynghorau eraill yn wynebu llai o bwysau ariannol ac mae Caerdydd yn gofyn am i hyn gael ei ystyried fel rhan o'r Setliad Terfynol.

Menter Fenthycy Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - mae'r driniaeth i'r cyllid hwn wedi tanddatgan canran y gostyngiad ar gyfer llywodraeth leol. Mae Caerdydd wedi trosglwyddo £352,000 i'r Grant Cynnal Refeniw ac mae hynny'n cyfateb i ddyraniad grant penodol 2014-15. Ar gyfer 2015-16, cynyddodd eu dyraniad o £452,000 i £804,000 ac er bod hwn wedi'i nodi yn y setliad, nid yw'n gyllid ychwanegol fel y credid i ddechrau a'r bwriad clir oedd iddo ddod o'r cwantwm cyffredinol.

Gwarchod Ysgolion - er bod gwella canlyniadau a pherfformiad ysgolion yn parhau'n amcan allweddol, mae diffyg hyblygrwydd i ddefnyddio adnoddau rhwng y rhain ac mae gwasanaethau eraill y Cyngor wedi dod yn rhwystr arwyddocaol.

Grantiau Penodol - dywed Cyngor Caerdydd ei fod yn methu sicrhau safbwynt pendant am effaith dosbarthiad grantiau penodol ac mae'n nodi mai canran y gostyngiad rhwng 2014-15 a 2015-16 yw 8.8%. Mae hefyd yn nodi bod angen rhagor o fanylion am rai grantiau, y Grant Cytundeb Canlyniadau'n benodol.

Cyllid dangosol - mae Caerdydd yn bryderus am y diffyg ffigurau dangosol ar gyfer y tymor hwy, sy'n ei gwneud yn anos i lywodraeth leol gynllunio ymlaen a phennu strategaethau ariannol cynaliadwy. Mae ei gynigion cyllidebol yn dangos yr effaith a gaiff y setliad hwn ar wasanaethau dewisol, a fydd yn arwain at ostyngiad sylweddol ynddynt, a chwtogi ar wasanaethau statudol. Bydd Caerdydd yn parhau i weithio gyda dinasyddion a phartneriaid er mwyn lleihau'r effaith ond mae bwlch o £48 miliwn yn y gyllideb yn peri pryder eithriadol.

Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.4%

Cyffredinol - mae'r Cyngor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd yn ei chyllideb ei hun ond mae'n siomedig bod y gostyngiad yng nghyllid llywodraeth leol yn sylweddol uwch na'r gostyngiad yng nghyllideb Cymru yn gyffredinol ar gyfer 2015-16. Bydd hyn yn arwain at dorri rhagor o wasanaethau a swyddi yn 2015-16, yn ychwanegol at y toriadau sydd wedi digwydd yn 2014-15.

Grantiau Penodol - mae Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu trosglwyddo grantiau penodol i'r Setliad ac yn gobeithio y bydd llawer iawn mwy yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n teimlo y bydd y gostyngiad mewn rhai grantiau, ee. Cefnogi Pobl, yn cael effaith negyddol ar wasanaethau. Er ei fod yn croesawu cyfuno'r 11 grant addysg yn un grant, bydd y swm is yn gyffredinol yn creu anawsterau ar gyfer 2015-16. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gofyn am dderbyn dyraniadau unigol ar gyfer grantiau penodol eraill, oherwydd gall unrhyw ostyngiadau arwain at ddiswyddo angenrheidiol, a bydd angen cyflwyno rhybudd statudol ar gyfer hynny.

Setliad Dangosol – er bod y Cyngor wedi bod yn paratoi ar gyfer y setliad anodd hwn ers mis Ebrill 2014, roedd yn siomedig nad oedd wedi cael ffigurau dros dro tan fis Hydref. Mae'n nodi bod ffigurau dangosol 2015-16 a ddarparwyd yn Adroddiad olaf y Setliad Terfynol yn llawer uwch ac mae hyn yn gwneud cynllunio'n ariannol a chynllunio gwasanaethau'n eithriadol anodd.

Gwasanaethau Cymdeithasol - er bod y cyllid ychwanegol i'w groesawu, mae'n ymddangos bod y torri ar y Gronfa Gofal Canolraddol yn dileu ei effaith fanteisiol. Mae'r cyllid hwn, ynghyd â'r cyllid gwarchod ysgolion, wedi dod o'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn hytrach nag o gyllideb sylfaen Llywodraeth Cymru, ac mae'n teimlo bod hyn yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd cyllid ychwanegol yn y dyfodol.

Cyllido Gwaelodol – mae'r Cyngor yn siomedig bod £139,000 o'i setliad wedi'i ddargyfeirio i gyllido mecanwaith lleddf.

Treth Gyngor – mae'r Cyngor yn sicrhau Llywodraeth Cymru ei fod yn ystyried yr holl ffrydiau incwm wrth wynebu heriau cyllido. Er mwyn creu cydbwysedd priodol rhwng anghenion ariannol a'r baich ar deuluoedd, bydd Cabinet y Cyngor yn argymhell cynnydd o 4.8% yn nhref gyngor 2015-16.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -2.4%

Cyffredinol - mae Castell-nedd Port Talbot yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd o ganlyniad i ostyngiadau yng nghyllid y Llywodraeth Genedlaethol. Mae'n nodi nad oedd y Gyllideb Ddrafft na'r Setliad Dros Dro'n darparu ffigurau dangosol ar gyfer 2016-17 ac yn teimlo bod hyn yn siomedig iawn, o ystyried bod busnesau ac awdurdodau lleol angen paratoi cynlluniau ariannol tymor canolig am dair blynedd. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi bod y Setliad Dros Dro'n welliant bychan ar y rhybudd o 4.5% ym mis Mehefin ac yn setliad gwell na'r cyfartaledd i Gastell-nedd Port Talbot.

Addysg – mae'r Cyngor yn croesawu'r cyllid cynyddol drwy gyfrwng y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - mae'n gefnogol bod y dyraniad CCC wedi cael ei gynnal yn £142.8m. Bydd hyn yn galluogi Cynghorau i fuddsoddi yn y seilwaith cymunedol a chefnogi eu cymunedau lleol a'u heconomi.

Grantiau Penodol - mae'r sefyllfa bresennol yn peri pryder gyda thoriadau yn ystod y flwyddyn ym maes Addysg a Gweinyddu Tocynnau Rhatach, a fydd yn cael effaith niweidiol ar wasanaethau a chontractau cyflogaeth. Mae'n hanfodol bod dyraniadau grant awdurdodau lleol unigol yn cael eu cadarnhau cyn y flwyddyn ariannol newydd. Yn y cyfnod Dros Dro, mae 12 grant heb eu cadarnhau. Mae uno'r 11 grant Addysg wedi'i groesawu oherwydd bydd yn arwain at lai o fiwrocratiaeth a chostau archwilio a gweinyddu. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad o 14% yn cael effaith niweidiol ar ganlyniadau. Bydd y gostyngiad yn y grant Cefnogi Pobl yn effeithio ar y bobl mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Y Gronfa Gofal Canolraddol - mae Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â Chynghorau eraill ac Awdurdod Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, wedi bod yn datblygu arferion gweithio a gwasanaethau newydd ac felly bydd tynnu'r grant untro hwn yn ei ôl ar gyfer 2014-15 a rhoi £10m yn ei le yn y prif setliad yn cael effaith ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Grant Cytundeb Canlyniadau – mae'n hanfodol bod dyraniadau awdurdodau lleol, ynghyd ag unrhyw newid i reolau grant, yn cael eu cadarnhau yn y Setliad Terfynol. Mae'r toriadau parhaus ar grantiau penodol, ynghyd â chyhoeddi hwyr/toriadau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn waeth i'r Cyngor o ran yr angen am arbed £19m yn ei gyllideb ar gyfer 2015-16 a rhyw £50m yn ystod y tair blynedd nesaf.

Cyngor Sir Gaerfyrddin: Gostyngiad Setliad Dros Dro o -3.3%

Setliad Cyffredinol - mae Sir Gaerfyrddin yn deall yn iawn bod y setliad wedi cael ei wneud yn erbyn cefndir o gyfnod anodd a heriol yn y sector cyhoeddus oherwydd llai o wariant cyhoeddus gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r setliad dangosol gael ei adolygu i fod yn is, ac mae hynny'n ei gwneud yn eithriadol anodd i gynllunio ymlaen yn ariannol. Nid oes amser paratoi priodol chwaith ar gyfer rheoli gostyngiadau neu newidiadau i wasanaethau.

Grantiau penodol - nid yw oedi gyda chadarnhau dyraniadau grant a hepgor y setliad dangosol tair blynedd yn helpu o gwbl. Bydd hyn yn arwain at ddiffyg eglurder o ran cynllunio gwasanaethau effeithiol a chreu cynlluniau ariannol effeithiol.

Cyllid Allanol Cyfun - mae'r gostyngiad yng Nghyllid Allanol Cyfun Sir Gaerfyrddin o 3.3% yn cyfateb i 7.5% o'i osod ochr yn ochr â chwyddiant pris a chyflog a phwysau eraill o ran costau, gwarchod addysg a'r anallu i newid rhai costau eraill, fel ffioedd cyllido cyfalaf. Nid oes unrhyw ffigurau dangosol wedi cael eu darparu ar ôl 2015-16 a chan fod lefelau tebyg o ostyngiadau'n debygol o barhau, bydd argaeledd cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol y tu hwnt i addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i grebachu.

Mae'r gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun yn waeth oherwydd y gostyngiadau mewn grantiau penodol ac effeithiau meysydd gwasanaeth penodol fel cefnogi pobl, addysg a rheoli gwastraff.

Cyllid Cyfalaf - nid yw hwn wedi newid llawer o gymharu â'r ffigurau blaenorol ac mae'r Cyngor yn nodi unwaith eto nad oes unrhyw ffigurau dangosol ar gyfer 2016-17 a thu hwnt. Mae cwrmpas y cyllidebau refeniw'n gyfyngedig i gyllido benthyca heb gefnogaeth a bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gwtogi mewn meysydd sydd â photensial i roi hwb i dwf economaidd.

Treth Gyngor - mae'r Cyngor yn hapus gyda'r diffyg cyfeirio at unrhyw gapio ochr yn ochr â chyhoeddi'r setliad dros dro ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y setliad terfynol.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyffredinol - Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n parhau i ysgwyddo baich trymaf y toriadau cyni. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ailgalibro dyraniadau gwasanaethau cyhoeddus a dargyfeirio mwy o gyllid at wasanaethau iechyd, yn seiliedig ar adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield. Mae'r toriadau ar gyfartaledd i'r Grant Cynnal Refeniw o -3.4%, a gostyngiad ariannol pellach o 8.8% mewn grantiau penodol hysbys, yn cyfateb i'r sefyllfa o doriadau mor isel â -4.5% y rhybuddiwyd yn eu cylch gan ragflaenydd y Gweinidog. Mae dull cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru wedi bod yn eithriadol anfodddhaol, anghyson a darniog ac mae'n cwestiynu'r rhesymeg o ran darparu ffigurau dangosol sy'n amrywio cymaint.

Bu gostyngiad o 3,000 yng ngweithlu llywodraeth leol y llynedd ac mae'r arwyddion cynnar ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn awgrymu y bydd yn 5,000. I'r gwrthwyneb, bu cynnydd o 391 yng ngweithlu Llywodraeth Cymru, i 5,777, mewn dwy flynedd.

Mae'r pwysau demograffig, ariannol, pris a chyflog sydd wedi'u cofnodi'n dda ar gyfer iechyd yr un mor berthnasol hefyd i lywodraeth leol. Mae cofnod da o'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ataliol lleol. Mae'r Gymdeithas yn dadlau yn erbyn y syniad y bydd ad-drefnu'n darparu'r ateb llawn ar gyfer hyn.

Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol - maent yn cyfrif am fwy na 65% o wariant llywodraeth leol. Bydd gwarchod unrhyw ran ohonynt yn arwain at effeithio ar weddill y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol. Mae anhyblygrwydd yn sgil gwarchod ysgolion, cynnydd yng nghostau gwasanaethau cymdeithasol ac anallu i newid rhai costau eraill fel ffioedd cyllido cyfalaf, yn golygu bod y gostyngiadau sydd eu hangen mewn gwasanaethau eraill yn llawer mwy na'r cyfartaledd - gostyngiad o 3.4% mewn Cyllid Allanol Cyfun.

Croesawodd y Gymdeithas y cyllid ychwanegol i addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, bu dryswch ar gyfer y rhai sy'n cynllunio gwasanaethau ynghylch a ydynt yn cael eu cyllido gan gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ai peidio. Hefyd, mae'n rhaid gwneud iawn am y £10m ar gyfer gofal cymdeithasol drwy dorri £50m ar y Gronfa Gofal Canolraddol.

Cyllido gwaelodol a fformiwla - croesewir y mecanwaith gwaelodol gan awdurdodau a fydd yn elwa ohono, ond byddant yn dal i wynebu problemau sylweddol o ran delio â gostyngiad o 4.5%. Dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod llawer yn teimlo bod y fformiwla wedi dyddio ac angen adolygiad sylfaenol. Maent hefyd yn teimlo y dylai'r gwaith ar hyn ddechrau, fel bod fframwaith cyllido addas i bwrpas ar gael yn y dyfodol ar gyfer uno gwirfoddol erbyn 2018, neu erbyn 2020 yn sicr.

Grantiau penodol - mae'r gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun yn waeth oherwydd y gostyngiadau mewn grantiau penodol a bydd colli'r grant Cefnogi Pobl yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth gwerthfawr hwn. Croesawodd y Gymdeithas y rhesymeg o uno'r 11 grant addysg yn un ond bydd y gostyngiad o £24m yn creu problemau sylweddol i gyllidebau ysgolion. Bydd y Cynghorau'n fwy pwylllog o ran parhau i greu gwariant ar gynlluniau a gyllidir gan grantiau heb lythyr yn cynnig grant, o ystyried y penderfyniad i leihau rhai grantiau addysg yn 2014-15. Mae'r Gymdeithas yn parhau â'i phle am hyblygrwydd drwy drosglwyddo grantiau i'r setliad er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae'r cynnydd gyda hyn yn rhwystredig o araf.

Setliad dangosol - mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n nodi bod y setliad dangosol, am y drydedd flwyddyn yn olynol, wedi gostwng yn sylweddol, gan wneud cynllunio ariannol yn amhosib bron. Mae hefyd yn nodi nad oedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru na'r Setliad Llywodraeth Leol yn cynnwys unrhyw lefelau cyllido dangosol manwl y tu hwnt i 2015-16.

Dywed y Gymdeithas bod angen trafodaeth briodol ar gyllido gwasanaethau lleol. Fel arall, bydd y cyni'n creu difrod i genhedlaeth gyfan ledled Cymru. Bydd materion ariannol sy'n effeithio ar lywodraeth leol yn cael effaith ar ystod ac ansawdd y gwasanaethau, yn ogystal ag effeithiau o ganlyniad ar rannau eraill o'r sector cyhoeddus. Mae angen ailddiffinio rôl gwasanaethau llywodraeth leol.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi manteisio ar y cyfle i ymateb i ymgynghoriad y setliad ond mae hefyd wedi cynnwys llythyr maith ynghylch ystadegau CIFPA. Dyma'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r setliad:

- Mae'r Awdurdod yn deall dymuniad Llywodraeth Cymru i warchod gofal iechyd yng Nghymru, fodd bynnag, mae'r penderfyniad i wneud hyn yn hynod arwyddocaol o ran cyllid i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub.
- Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi dangos bod posib gostwng lefelau gwariant a chynnal safonau cyflwyno a chreu gwelliannau ar yr un pryd. Mae hyn wedi cael ei wneud drwy gynnal adolygiad sylfaenol o'u gwasanaethau.
- Mae gwersi i'w dysgu, yn enwedig o ran manteision rhoi mwy o bwyslais ar fesurau ataliol. Nid yw bodloni gofynion gofal iechyd Cymru gyda mwy o gyllid yn gynaliadwy a dylid cynnal adolygiad brys o iechyd gydag athroniaeth fwy rhagweithiol ar gyfer y dyfodol. Byddai'r Awdurdod yn fwy na pharod i gyfrannu'n gadarnhaol at newid cyfeiriad o'r fath.

Fforwm Ysgolion Castell-nedd Port Talbot

Mae gan Gadeirydd Pwyllgor y Fforwm bryderon difrifol am y gostyngiadau parhaus mewn cyllid a'r 'hawlio'n ôl' o ffrydiau cyllido eraill. Mae'r hinsawdd ariannol anodd yn cael ei chydabod ond bydd targedu cyllid sy'n cael effaith uniongyrchol ar arferion yn yr ystafell ddosbarth, fel y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, yn cael effaith niweidiol ar ganlyniadau a lles disgyblion. Mae nifer o ysgolion ledled Castell-nedd Port Talbot yn arwain arferion da ac mae'r gallu i arloesi wedi cael ei hwyluso gan gyllid a dargedir. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gwariant arloesol wedi cael ei gyfyngu. Bydd cyllid ychwanegol y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei erydu gan doriadau mewn llefydd eraill. Mae'r Fforwm yn eich annog i flaenoriaethu adnoddau y mae pen draw iddynt i'r rheng flaen.